

Manon Antoniazzi
Y Prif Weithredwr a'r Clerc
Comisiwn y Senedd

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Manon

Defnyddio'r term BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol)

Wrth i'r Pwyllgor drafod ei adroddiad drafft, Craffu ar Gyfrifon: Comisiwn y Senedd 2020-21, roedd nifer o gyfeiriadau at yr acronym BAME. Gofynnodd un Aelod i ni beidio â defnyddio'r term hwn am fod dinasyddion sy'n cynrychioli'r gymuned hon yn teimlo ei fod yn sarhaus. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr, ac oni bai am ddyfyniadau uniongyrchol o gyhoeddiadau neu Gofnod y Trafodion, newidiwyd pob cyfeiriad i ddweud 'cymunedau lleiafrifoedd ethnig' yn lle hynny. Rwy'n siŵr byddwch wedi gweld yr ymadrodd hwn yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gofynnodd y Pwyllgor i mi ysgrifennu atoch yn gofyn i Gomisiwn y Senedd roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig Adroddiad ym mis Ebrill 2021 ar gyfer Llywodraeth y DU a oedd yn ymchwilio i wahaniaethau hil ac ethnig yn y DU. Un o'r meysydd a ystyriwyd oedd defnyddio'r termau BAME a BME, ac ym mis Mawrth 2021, argymhellodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig y dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Mae Llywodraeth y DU yn trafod ei hymateb i Adroddiad y Comisiwn ar hyn o bryd.


Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn Comisiwn y Senedd ar y cais hwn unwaith y bydd wedi'i drafod yn llawn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion pob Pwyllgor yn gofyn iddynt ystyried peidio â defnyddio'r term BAME yng ngohebiaeth a chyhoeddiadau eu pwyllgorau.

Diolch.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Isherwood', with a long horizontal line extending to the right from the end of the signature.

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

